# Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri
# Ffestiniog & Welsh Highland Railways

Gorsaf yr Harbwr/Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
☎ 01766 516000 🖷 01766 516006
enquiries@ffwhr.com

## Disgrifiad Swydd

**1. Manylion y Swydd:**

**Teitl y Swydd:** Rheolwr Prosiect Adeiladu
**Mae Deiliad y Swydd yn Atebol i'r:** Rheolwr y Prosiect Treftadaeth
**Lleoliad:** Porthmadog, Gwynedd
**Cyflog:** £29,000 Pro rata
**Oriau:** Trwy gytundeb, hyd at 0.5FTE
**Hyd:** Yn ystod y cam adeiladu – 18 mis

**2. Pwrpas y Swydd:**

Mae angen Rheolwr Prosiect sydd â phrofiad o adeiladu, gan gynnwys cadwraeth, i fod yn rheolwr llinell i Reolwr y Prosiect Treftadaeth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cam adeiladu drwy ddarparu cyswllt o ddydd i ddydd â'r contractwr ar y safle a chysylltu â Staff Boston Lodge i sicrhau bod y safle'n weithredol.

**3. Prif Gyfrifoldebau:**

Rheoli Contractwyr

(i) Monitro cynnydd y prif gontractwr ar y safle, gan roi cyswllt cleient rheolaidd iddynt. Sylwer: Gweinyddwr y contract fydd y pensaer a dim ond ef all gyfarwyddo'r gwaith.

(ii) Cynnal y gofrestr risgiau a phroblemau adeiladu, gan nodi, cofnodi ac yna monitro unrhyw faterion y mae angen gweithredu arnynt. Uwchgyfeirio at y Tîm Dylunio a Rheolwr y Prosiect Treftadaeth yn ôl yr angen.

(iii) Darparu cefnogaeth i'r tîm proffesiynol pan ofynnir i chi

(iv) Cysylltu â Rheolwr y Prosiect Treftadaeth pan fydd angen cyfarwyddyd gan gleientiaid.

(v) Goruchwylio unrhyw gontractwyr llai sydd wedi cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y cleient. Fel arfer, bydd Rheolwr y Prosiect Treftadaeth yn rhoi cyfarwyddiadau. Mynd i gyfarfodydd safle misol

Logisteg safleoedd

(vi) Helpu'r prif gontractwr i gynllunio gwaith i leihau'r effaith ar y safle gweithio, bydd hyn yn cynnwys amserlenni cyffredinol ond hefyd archwiliadau wythnosol o'r gwaith sydd ar y gweill

(vii) Cysylltu â Staff Boston Lodge ynghylch yr amserlen gyffredinol ac yna'n wythnosol am y gwaith sydd ar y gweill

(viii) Cysylltu â'r rheini sy'n rheoli gweithgorau gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r prosiect i sicrhau eu bod yn cael eu hamserlennu pan fo angen i gyd-fynd ag amserlen y contractwr

(ix) Cysylltu â Pheiriannydd y Prosiect ar gyfer y gwaith adeiladu Small Loco Shed i sicrhau bod unrhyw ofynion mynediad yn cael eu cynnal a sicrhau nad oes gormod o gontractwyr allanol ar y safle ar y tro.

Cyffredinol

Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri
Ffestiniog & Welsh Highland Railways

Gorsaf yr Harbwr/Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
☎ 01766 516000 🖷 01766 516006
enquiries@ffwhr.com

(x) Cefnogi'r Hyfforddai Rheoli Prosiectau i ddysgu am sgiliau rheoli prosiectau lefel adeiladu, yn enwedig cyfathrebu â chontractwyr, rheoli risg a materion a logisteg/trefnu
(xi) Ysgrifennu adroddiadau cynnydd cryno i'w cynnwys mewn adroddiadau i Fwrdd y Prosiect
(xii) Gwaith arall yn ôl yr angen.

**4. Profiad, Gwybodaeth, Cymwysterau a Hyfforddiant:**

Hanfodol (H) Dymunol (D)

Profiad
i. Profiad o reoli prosiectau adeiladu (H)
ii. Profiad o reoli prosiectau cadwraeth (H)
iii. Profiad sylweddol o gysylltu â chontractwyr a chleientiaid (H)
iv. Profiad o reoli contractwyr sy'n gweithio ar safle gweithredu byw (H)
v. Profiad o fonitro cyllidebau cyfalaf a chyllidebau heb fod yn rhai cyfalaf (H)
vi. Profiad o fentora neu hyfforddi (D)

Gwybodaeth
vii. Gwybodaeth dechnegol dda am adeiladu (H)
viii. Gwybodaeth dechnegol dda am gadwraeth (H)
ix. Gwybodaeth dda am systemau rheoli prosiectau cyffredinol (H)
x. Gwybodaeth dda am ddiogelwch rheilffyrdd (H)
xi. Gwybodaeth dda am sut mae rheilffyrdd treftadaeth yn gweithredu (D)

Cymwysterau/Achrediadau
xii. Gradd berthnasol neu gymhwyster cyfatebol e.e. rheoli adeiladu (MRICS), rheolwr prosiect (MAPM) neu wedi cymhwyso drwy brofiad (D)

Sgiliau
xiii. Sgiliau cadarn o ran rheoli prosiect (H)
xiv. Sgiliau trefnu rhagorol (H)
xv. Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig (H)
xvi. Gallu amlwg i ganolbwyntio ar gleientiaid a sgiliau rheoli cleientiaid rhagorol (H)
xvii. Sgiliau mentora neu hyfforddi (D)
xviii. Gallu siarad Cymraeg (D)